

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan Nos Iau 29 Mehefin 2017

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Cynghorwyr Sir: Y Cyng. Rheinallt Puw a Paul Rowlinson

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Linda Brown.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dyfrig Jones a Pearl Evans

2. Datgan Diddordeb

Eitem 7, Llys Dafydd: Y Cyng. Godfrey Northam, Linda Brown ac Ann Williams; Eitem 8, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes a Griff Morris.

3. Arfon Hughes-Uwch Hwylusydd Tai Gwledig Grŵp Cynefin

Cafwyd adroddiad gan Arfon yn dilyn yr arolwg anghenion tai ym Methesda. Adroddwyd bod yna 33 o dai gwag yn yr ardal, penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach i weld ble oedd y tai gwag yma. Diolchwyd iddo am yr adroddiad defnyddiol a diddorol.

4. Materion Brys

4.1 Adroddwyd bod y cloddiau wedi gor-dyfu ar hyd Ffordd Newydd Gerlan, sydd yn creu trafferthion gweledd. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

5. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017, yn ddarostyngedig i Eitem 8: adroddodd y Cyng. **Walter Williams** bod angen bin newydd ar Lôn Bach Odro, ger Ysgol Llanllechid, gan bod yr un oedd yno wedi **symud ac wedi ei ddifrodi**.

Eitem 9: Ffurflen Ariannol Flynyddol **2015-16**

Eitem 13: Clwb Diogelu Gerlan (Rhodd-**dyledus o'r flwyddyn flaenorol**)

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Y gofeb – y torchau dal i fod yno. Penderfynwyd gofyn wrth Mr Jackson i'w clirio oddi yno.

6.2 Gofod parcio dros nos ar gyfer cerbydau ‘camper’ – cyfarfod safle gyda gwasanaeth Hamdden Cyngor Gwynedd wedi bod dydd Llun 22.05.17. Cyngor Gwynedd am wneud ymholiadau pellach ac wedi awgrymu cynnwys Arloesi Gwynedd yn y trafodaethau.

6.3 Un Llais Cymru- gwahoddiad i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i’w trafod yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddydd Sadwrn, 30 Medi 2017. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw gynigion ar gyfer y cyfarfod, ond angen meddwl cyn y cyfarfod nesaf os oes rhywun ar gael i fynychu’r cyfarfod.

6.4 Un Llais Cymru – templed o bolisi cyfryngau cymdeithasol. Penderfynwyd mabwysiadu’r polisi gyda newidiadau i gymal 4 (Y Clerc yn unig i bostio deunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol). Y Cyng. Bleddyn Williams i wneud ymchwil ynglŷn a chael tudalen i’r Cyngor ar ‘Facebook’.

7. Adroddiad Llys Dafydd

Adroddwyd bod gwaith chwynnu wedi ei wneud yno, y safle yn edrych yn werth chweil. Adroddwyd bod Egin Ogwen wedi gwneud cais am fin compost ar y safle, tua 1.5m x 1.5m ac wedi cael caniatâd. Hefyd, nid oes fandaliaeth ers pan mae’r golau newydd wedi ei osod ar y safle.

8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd nad oedd cyfarfod o’r Bwrdd rheoli wedi bod ers y cyfarfod diwethaf, ond bod Bethan Griffith wedi ei phenodi fel Swyddog Gweinyddol.

Siop Ogwen-adroddwyd bod Anna Gwenllian wedi ei phenodi fel Swyddog Datblygu’r siop.

9. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Grŵp Gwasanaethau ac Asedau Dyffryn Ogwen-adroddwyd bod Owain Wyn o gwmni Burum wedi mynychu’r cyfarfod diwethaf er mwyn casglu syniadau gan y grŵp.

Ysgol Llanllechid – adroddwyd bod yr ysgol yn awr yn defnyddio ‘Chromebooks’ sydd yn hwylus iawn, ond bod nhw’n cael ychydig o drafferth gyda’r argraffu.

Parc Cenedlaethol Eryri – adroddodd y Cyng. Godfrey Northam am y cyfarfod a gynhaliwyd yn Plas y Brenin 20.06.17. Trafodwyd grant £800,000 ar gyfer prosiect y Carneddau, y parcio ym Mwthyn Ogwen a newidiadau i Adran 106.

Pwyllgor Canolfan Cefnfaes – adroddwyd bod pryderon ynglŷn a throsglwyddo’r ganolfan. Trafodwyd bod y Gwasanaeth Ieuencid yn cael ei gwtogi o dair noson yr wythnos i ddwy noson ym mis Medi. Y Cyngor, mewn egwyddor yn ystyried cyfrannu tuag at gynnal y gwasanaeth yn y dyfodol (pan fydd mwy o wybodaeth/ddata ar gael) (*Y Cyng. Ann Williams wedi datgan diddordeb*)

10. Fforwm Tai Bethesda

Y Cyng. Rheinallt Puw yn chwilio am gynrychiolydd o’r Cyngor. Penderfynwyd cyfethol y Cyng. Ann Williams 9ar Cyng. Walter Williams fel eilydd). Bydd y cyfarfod cyntaf 26.07.17 yng Nghaffi Coed y Brenin 2.00-4.00yp.

11. Cymhorthfa misol

Y Cyng. Rheinallt Puw y gobeithio cynnal cymorthfeydd misol ac eisiau caniatâd i ddefnyddio Gorffwysfan ar eu cyfer. Penderfynwyd rhoi’r hawl iddo ddefnyddio’r adeilad ar gyfer hyn. Y Clerc i hysbysu’r gofalwr pan fydd yn digwydd.

12. CCTV

Trafodwyd cael 'CCTV' ar y stryd fawr. Penderfynwyd, mewn egwyddor, bod angen y camerâu. Y Clerc i ymchwilio i gostau a rheolau cael camerâu ar y Stryd Fawr ac ym maes parcio Cae Star.

13. Gweithiwr Cynnal

Ychydig o geisiadau wedi eu derbyn ar gyfer y swydd. Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Cyng. Neville Hughes a'r Clerc i weithredu ar y mater.

14. Ffurflen Ariannol Flynyddol 2016-17

Y Cyngor wedi cwestiynu rhai o'r ffigyrau. Y Clerc i drafod gyda'r Archwilydd Mewnol ac egluro i'r Archwilydd Allanol bydd y ffurflen yn hwyr yn cael ei arwyddo.

15. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2017'

15.1. Llythyr gan Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai-cais am rodd ariannol tuag at wella eu cae presennol. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hysbysu'r Clwb mai diwedd y flwyddyn bydd ceisiadau yn cael eu hystyried a hefyd bod y cais angen bod yn Gymraeg/dwyieithog.

15.2 E-bost gan Un Llais Cymru- ynglŷn a pa noson ddylid cynnal y cyfarfodydd Pwyllgor Ardal. Y Clerc i holi y Cyngor. Susan Davies a Pearl Evans.

15.3 E-bost gan Groundwork Gogledd Cymru – gobeithio cael cynnal 2 sesiwn chwarae yn Parc Long Street, Gerlan yn ystod gwyliau'r haf. Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r parc gael ei ddefnyddio, ond angen gwirio mai'r parc yn Ciltrefnus sydd dan sylw.

15.4 E-bost gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd-gwahoddiad i'r Noson o ddiolchiadau. Yn anffodus, doedd neb ar gael i fynychu.

15.5 E-bost gan Un Llais Cymru – rhestr o fodiwlau hyfforddiant sydd ar gael rhwng mis Mai a Rhagfyr. Nodwyd yr ohebiaeth.

15.6 Llythyr gan Cwmni Llys Dafydd – pan fydd y Cwmni yn dod i ben, yn awyddus cael 'ail-gyflwyno'r' safle i'r Cyngor Cymuned. Y Cyngor yn hapus i'w dderbyn.

15.7 E-bost gan Gyngor Gwynedd – cyfyngiadau parcio arfaethedig yn Rachub. Y Cyng. Godfrey Northam yn hapus gyda'r cyfyngiadau. Y Clerc i holi'r Cyngor. Susan Davies a Pearl Evans am unrhyw sylwadau pellach.

15.8 E-bost gan y Cyng. Dyfrig Jones-nodiadau yn dilyn sgwrs gyda rheolwr y Caffi Cyfrannu i Rannu. Nodwyd yr ohebiaeth.

16. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C17/0367/13/LL

Capel Bethel, Henbarc, Rachub

Creu mynedfa gerbydol newydd a man troi, newid defnydd y Capel o addoldy i uned gwneud clogsiaua cadw defnydd Ty capel yn uned preswyl.

Caniatawyd, gydag amodau

C17/0379/13/LL

27 Braichmelyn, Bethesda

Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol a codi estyniad deulawr yn ei le

Caniatawyd, gydag amodau

C17/0386/13/LL

Gorffwysfa, Bangor Road, Bethesda

Dymchwel lolfa wydr bresennol ar gefn yr eiddo a chodi estyniad deulawr newydd yn ei le
Caniatawyd, gydag amodau

Ceisiadau**C17/0489/13/LL**

4 Fron Bant, Gerlan Road, Gerlan

Estyniad unllawr ar gefn yr eiddo
Cefnogi

C17/0413/13/LL

9 Victoria Place, Bethesda

Newid defnydd tŷ i 2 fflat hunan-gynhaliol
Gwrthwynebu-gormod o fflatiau ar y stryd fawr yn barod

C17/0556/13/LL

18 Hill Street, Gerlan

Codi estyniad llawr cyntaf ar ben estyniad unllawr cefn presennol
Cefnogi

C07/0411/13/LL

Heulfryn, Carneddi Road, Carneddi

Codi estyniad dros estyniad unllawr
Cefnogi

17. Taliadau**Awdurdodwyd y canlynol**

Cyflogau (Mehefin)	£260.00
CThEM (Mehefin)	£65.00
Ffenestri Gorffwysfan (Mawrth)	£7.00
Ffenestri Gorffwysfan (Mehefin)	£7.00
British Gas – Llys Dafydd	£56.41
C Jackson –llwybrau	£1844.50
Londis-papurau Ebrill	£22.50
Cyngor Gwynedd-toiledau cyhoeddus	£4000.00
Cymen-cyfieithu ar y pryd	£222.00
Dŵr Cymru – Gorffwysfan	£196.00
Dŵr Cymru – Llys Dafydd	£18.93
Un Llais Cymru	£80.00
Londis – papurau Mai	£22.85
Zurich-yswiriant blynyddol	£1571.67